

Mae'r math hwn o asesiad yn gofyn i ddysgwyr ddadansoddi a gwerthuso gwahanol ffyrdd y mae agweddau ar y gorffennol wedi cael eu dehongli, drwy ystyried dau ddetholiad gwahanol gan haneswyr ar fater penodol [AA3].

Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ddadlau a chynnig barn ar y mater allweddol a osodwyd, ac i ystyried nifer o ddehongliadau o fewn dadl hanesyddol ehangach ar y mater hwn. Mae disgwyl i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r dadl - a'u bod yn gallu ystyried dehongliadau posibl eraill yn hytrach na'r rhai a gyflwynwyd - ond nid yw gwybodaeth fanwl am haneswyr penodol, eu gyrfaedd a'u gwaith, yn ofynnol.

Dylai canolfannau annog eu dysgwyr i ddadansoddi a gwerthuso'r ddau ddetholiad a roddwyd, nid yn unig i adnabod gwahaniaethau yn y dehongliadau ond hefyd i drafod sut a pham y ffurfiwyd dehongliadau gwahanol.

Enghraifft o dadl: Rôl Churchill yn nherfysgoedd Tonypany

Cefndir

Gwrthdaro treisgar rhwng glowyr a'r heddlu oedd terfysgoedd Tonypany yn 1910. Dechreuodd ym mhwl glo Llwynypia a oedd yn eiddo i'r Cambrian Combine. Roedd y terfysgoedd yn benllanw anghydfod diwydiannol rhwng gweithwyr a pherchenogion pyllau glo ynglŷn â thâl ac amodau gwaith. I ddechrau, roedd y term 'terfysgoedd Tonypany' yn gysylltiedig â digwyddiadau penodol ar nos Fawrth, 8 Tachwedd 1910, pan fu'r streicwyr yn ymladd â'u dyrnau yn erbyn Heddlu Morgannwg oedd â Heddlu Dinas Bryste wrth gefn. Ymyrrodd yr heddlu pan ddechreuodd y streicwyr dorri ffenestri busnesau yn Nhonypany. Oherwydd y penderfyniad gan Winston Churchill, yr Ysgrifennydd Cartref, i anfon milwyr i'r ardal i gefnogi'r heddlu'n fuan ar ôl y terfysgoedd ar 8 Tachwedd, bu drwgdeimlad tuag ato yn Ne Cymru gydol ei fywyd. Mae ei gyfrifoldeb yn dal i fod yn bwnc llosg sydd wedi ysgogi cryn ddadlau ac anghytuno ymysg haneswyr.

Detholiad 1

Mae ymdrechion diweddar i egluro digwyddiadau yn hanes Cymru wedi methu â chyrraedd y tudalennau llythyrau. Mae hyn yn wir os ydym yn ystyried yr ailadrodd mythau a hanner gwirioneddau blinderus am yr aflonyddwch yn Nhonypandy yn 1910. Er mwyn i bawb gael gwybod, Winston Churchill, yr Ysgrifennydd Cartref, a awdurdododd yn uniongyrchol ar 8 Tachwedd fod milwyr traed a marchfilwyr yn teithio ymlaen o Swindon, lle roedden nhw wedi aros hyd yn hyn, i ymuno â'r Heddlu Metropolitan yr oedd eisoes wedi'i anfon yno yn dilyn y gwrthdaro y tu allan i bwl glo Glamorgan ar 7 Tachwedd a'r dinistr yn stryd fawr fasnachol Tonypandy. Roedd milwyr ar strydoedd Canol Cwm Rhondda y diwrnod canlynol ac arhoson nhw ar wahanol adegau, fel byddin oresgynnol fwy na heb, drwy'r flwyddyn ganlynol tan i streic y Cambrian Combine gael ei thorri. Nid oes neb wedi cyhuddo'r milwyr o saethu ar unrhyw dyrfa oedd wedi ymgynnull, er bod batonau a bidogau wedi'u gosod yn gyffredin gydol yr amser yng Nghwm Rhondda.

[Dai Smith, hanesydd academiaidd yn ysgrifennu mewn llythyr a gyhoeddwyd yn y *Western Mail*, Chwefror 2015: 'Tonypandy - cywiro'r cofnod' (fersiwn wedi'i olygu)]

Detholiad 2

Roedd Lionel Lindsay, Prif Gwnstabl Morgannwg, yn gwybod nad oedd digon o adnoddau ganddo gan fod streic ers mis yn barod mewn pyllau glo yng Nghwm Cynon gerllaw. Cyn gynted ag y cyhoeddodd y *Fed* y streic, apeliodd at y Swyddfa Ryfel am filwyr i helpu gyda'r argyfwng. Ni chafodd dim un ei anfon, ond erbyn dydd Sul 6 Tachwedd roedd heddlu ychwanegol o Fryste wedi cael eu cludo i Gwm Rhondda. Ar noson 7 Tachwedd amgylchynodd y glowyr oedd ar streic bwl glo Llwynypia ac, wrth iddyn nhw ddechrau colli eu tymer, taflwyd cerrig. Digwyddodd ymladd ffyrnig â dyrnau â'r heddlu ac ar ôl sawl ymosodiad â batonau, gwthiwyd y glowyr yn ôl i'r sgwâr yn Nhonypandy. Yno, ymosododd plismyn ar gefn ceffylau arnyn nhw a chafwyd llawer o anafiadau ar y naill ochr a'r llall. Eto, gofynnodd Lionel Lindsay am gefnogaeth filwrol. Nid oedd Churchill yn awyddus i anfon y milwyr i mewn, gan ei fod yn teimlo bod y bobl yn y fan a'r lle yn gorymateb, efallai. Gorchynnodd y dylid dal y milwyr yn ôl a'u cadw'n barod yng Nghaerdydd a Swindon. Fodd bynnag, cytunodd Churchill i anfon 270 swyddog ychwanegol ar geffylau ac ar droed o'r Heddlu Metropolitan.

[Phil Carradice, ysgrifennwr a darlledwr, yn ysgrifennu mewn blog i ddynodi canmlwyddiant y terfysgoedd ar wefan BBC Cymru, Tachwedd 2010: 'Terfysgoedd Tonypandy 1910' (fersiwn wedi'i olygu)]

Ymarferion ystafell ddosbarth ar gyfer dadleuon

Ymarfer 1

Ydych chi'n cytuno â'r dehongliad bod Churchill wedi cael ei gyhuddo'n annheg o anfon milwyr i Gwm Rhondda yn 1910?

Ymarfer 2

Pam mae haneswyr wedi dehongli rôl Churchill yn nherfysgoedd Tonypany yn 1910 mewn ffyrdd gwahanol?

Pynciau posibl eraill ar gyfer dadleuon

Maint newid cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr

Diwygiadau cymdeithasol a lles y Rhyddfrydwyr 1904-1914 - rhesymau ac effeithiau.

Iechyd/tynged yr iaith Gymraeg ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Achosion a maint gwrthdaro diwydiannol

Anghydfod Chwarel y Penrhyn: rôl ac enw da Arglwydd Penrhyn.

Hynt a helynt gwleidyddol newidiol y prif bleidiau

Dylanwad cynyddol y Blaid Lafur.

Menywod a'r ymgyrch dros ryddfrenio gwleidyddol.

Effaith y rhyfel ar gymdeithas

Maint cefnogaeth a/neu wrthwynebiad yng Nghymru i'r Rhyfel Mawr.

Effaith cymdeithasol a diwylliannol rhyfel - cadarnhaol neu negyddol?